Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Nodyn Cyfarwyddyd 102 Categoreiddio Digwyddiadau

Mis Ebrill 2017



## Hanes y Fersiwn:

| Fersiwn y Ddogfen | Dyddiad Cyhoeddi | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Mis Ebrill 2018 | |
| | | |

Dyddiad Adolygu: Mis Ebrill 2018

## Hysbysiad

Mae holl Nodiadau Canllaw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu gwarchod gan hawlfraint. Byddwch yn ymwybodol bod yn rhaid i'r defnydd o unrhyw ddeunydd o'r ddogfen hon gael ei wneud yn unol â Datganiad Hawlfraint a Hysbysiad Ymwadiad Safonol Cyfoeth Naturiol Cymru, y mae copi ohono ar gael gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth ar accesstoinformationteam@naturalresourceswales.gov.uk . Bydd unrhyw benderfyniad ynghylch ailddefnyddio'r wybodaeth hon yn unol â Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2005, ac eto ceir gwybodaeth gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth.

**Cyhoeddwyd gan:**
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
0300 065 3000 (Llun-Gwen, 8am-6pm)
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru
© Cyfoeth Naturiol Cymru

**Byddwch yn ymwybodol o'r pwyntiau pwysig canlynol:**

- Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cymorth ar gyfer defnyddio unrhyw ddogfennau gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn allanol.

- Mae unrhyw un y tu allan i Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio dogfennau Cyfoeth Naturiol Cymru ar eu cyfrifoldeb eu hunain.

- Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod y gallai defnyddiwr allanol dioddef ohono o ganlyniad i ddefnyddio unrhyw ran o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn dogfennau Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Oni nodir fel arall, mae'r canllawiau o fewn dogfennau Cyfoeth Naturiol Cymru yn benodol i weithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Gall dogfennau Cyfoeth Naturiol Cymru gyfeirio at gyfarwyddiadau gweithredol mewnol a dogfennau canllaw eraill sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig.

Dylid cyflwyno ceisiadau i atgynhyrchu dogfennau Cyfoeth Naturiol Cymru drwy Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 neu customercarecentre@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Beth sydd yn y ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:
- ein swyddogaeth
- effeithiau
- a sut yr ydym yn categoreiddio digwyddiadau

Dylid cyfeirio at ein Cynllun ar gyfer Galluogi Rheoli Digwyddiadau ar gyfer ein gweithgareddau rheoli digwyddiadau pellach.

Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru’n cael eu cynnal, eu gwella, a’u defnyddio’n gynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rheoli digwyddiadau yw un o'n swyddogaethau craidd pwysicaf, ac rydym yn ei gynnal ar sail 24 awr, 365 diwrnod.

Digwyddiad yw rhywbeth sy'n digwydd o fewn ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau statudol a allai:

- Gael effaith bosibl neu wirioneddol ar yr amgylchedd, neu effaith weithredol
- Ei gwneud yn ofynnol inni ymateb iddi.

Y cwestiwn allweddol yw a fyddwn yn:

- Ymateb ar unwaith (Digwyddiadau Effaith Lefel Uchel), yn ystod a'r tu allan i oriau swyddfa arferol, neu;
- Ymateb yn hwyrach (Digwyddiadau Effaith Lefel Isel), drwy waith gweithredol rheolaidd yn ystod oriau swyddfa, neu;
- Peidio ag ymateb (pan nad yw'r gŵyn neu ddigwyddiad o fewn ein cylch gwaith)

Bydd ein hymateb ar unwaith i ddigwyddiadau effaith lefel uchel yn golygu cymryd camau priodol i leihau niwed i bobl, cymunedau ac amgylchedd Cymru. Efallai y bydd ein hymateb yn cynnwys ymweliad, ac efallai ddim.

Efallai y byddwn yn ymateb i ddigwyddiadau effaith lefel isel naill ai yn ystod ein gwaith o ddydd i ddydd, trwy ein swyddogaethau rheoleiddio, neu ond trwy ddefnyddio'r wybodaeth a dderbyniwyd fel data i lywio ein rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Byddwn hefyd yn cofnodi gwybodaeth ynglŷn â digwyddiadau a chwynion, er mwyn darganfod tueddiadau a phennu rhaglenni gwaith ataliol yn y dyfodol.

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Diben y ddogfen hon yw helpu ein cwsmeriaid i ddeall pa ddigwyddiadau y byddwn yn ymateb iddynt, sut, a phryd. Rhaid iddi gael ei dilyn gan ein staff sy'n asesu ac yn categoreiddio digwyddiadau (gan gynnwys digwyddiadau a chwynion) y rhoddwyd gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru amdanynt drwy'r llinell argyfwng 0300 065 3000, er mwyn penderfynu ar ein hymateb.

## Cyswllt ar gyfer ymholiadau ac adborth

incidentpolicy@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 6
2. Ein swyddogaeth o ran ymateb i ddigwyddiad ..... 6
3. Ein dull sy'n seiliedig ar risg ar gyfer categoreiddio digwyddiadau ..... 7
4. Diffiniad digwyddiad ..... 8
5. Beth sydd o fewn ein cylch gorchwyl a'r tu allan iddo ..... 8
6. Sut yr ydym yn categoreiddio digwyddiadau ..... 10
    Pan fyddwn yn derbyn hysbysiad am ddigwyddiad ..... 10
    Digwyddiadau Effaith Lefel Uchel:sut y byddwn yn ymateb ac erbyn pryd ..... 10
    Digwyddiadau Effaith Lefel Isel:sut byddwn yn ymateb ac erbyn pryd ..... 11
    Digwyddiadau, cwynion a phethau eraill nad ydynt yn dod o dan ein cylch gwaith ..... 11
    Swyddogaeth ein Canolfan Cyfathrebu Digwyddiadau wrth gategoreiddio digwyddiadau ..... 12
7. Categoreiddio cychwynnol a therfynol ..... 12
8. Hysbysiadau a gadarnhawyd a hysbysiadau di-sail ..... 13

Atodiad A1 – Canllawiau categoreiddio ar gyfer digwyddiadau Lefel Uchel ac Isel ..... 14
- A1.1 Effaith ar iechyd cyhoeddus ..... 14
- A1.2 Effaith ar, neu o ganlyniad i, asedau Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 15
- A1.3 Effaith ar gadwraeth natur a bioamrywiaeth ..... 16
- A1.4 Effaith ar yr aer ..... 16
- A1.5 Effaith o ganlyniad i sŵn ..... 17
- A1.6 Effaith gan arogleuon ..... 17
- A1.7 Effaith ar dir ..... 19
- A1.8 Effaith ar ddŵr, gan gynnwys lladd pysgod ..... 19
- A1.9 Effaith ar ddŵr, gan gyfeirio at iechyd pobl ..... 22
- A1.10 Effaith ar ddŵr, gan gyfeirio at werth amwynder ..... 22
- A1.11 Effaith ar ddŵr, gan gyfeirio at amaethyddiaeth a masnach ..... 23
- A1.12 Effaith ar bysgodfeydd ..... 24
- A1.13 Effaith ar adnoddau dŵr ..... 26
- A1.14 Effaith ar ddŵr, tynnu dŵr yfed ..... 26
- A1.15 Effaith ar fordwyo ..... 26
- A1.16 Effaith ar lifogydd posibl ..... 27
- A1.17 Effaith ar lifogydd gwirioneddol ..... 28
- A 1.18 Effaith ar ymbelydredd ..... 29
- A1.19 Effaith ar werth economaidd neu amwynder ..... 30
- A1.20 Yr angen am gydlynu aml-asiantaeth ..... 30
- A1.21 Diddordeb gan y cyfryngau/risg i enw da Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 31

# 1. Cyflwyniad

Rydym wedi datblygu polisi categoreiddio digwyddiad integredig fel rhan o'n dull cyffredinol i ddarparu rheolaeth adnoddau naturiol ac atal difrod i'r amgylchedd. Mae categoreiddio digwyddiadau posibl a gwirioneddol yn caniatáu i ni ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg er mwyn blaenoriaethu ein gwaith i sicrhau ein bod yn cyflawni'r buddion gorau posibl i amgylchedd, pobl ac economi Cymru.

Atal digwyddiadau rhag digwydd yn y lle cyntaf yw ein prif nod, er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n briodol, ac fel rhan annatod o'n gwaith paratoi am ddigwyddiadau a gwaith rheoleiddio.

Fel sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth, byddwn yn defnyddio data a dadansoddiadau i gyfleu naratif argyhoeddiadol ynghylch y manteision clir i gymunedau, yr economi a'r amgylchedd mewn perthynas ag atal digwyddiadau amgylcheddol.

# 2. Ein swyddogaeth o ran ymateb i ddigwyddiad

Rydym yn Ymatebwr Categori Un o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, sy'n golygu bod gennym gyfrifoldeb cyfreithiol pwysig i ymateb yn uniongyrchol i ddigwyddiadau ac i gefnogi swyddogaethau rheoli digwyddiadau sefydliadau eraill megis y gwasanaethau brys, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol drwy roi cyngor a gwybodaeth.

Ategir ein swyddogaeth rheoli digwyddiadau gan amrywiaeth o ddyletswyddau statudol a phwerau, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Iechyd Planhigion 1967, Deddf Coedwigaeth 1967, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010, Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 fel yr amlinellir uchod, ymysg eraill. Ariennir ein gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru ac mae angen iddo ganolbwyntio er mwyn darparu gwerth effeithlon ac effeithiol.

Nid ydym yn wasanaeth brys – yr heddlu sydd fel arfer yn cydlynu'r gwaith rheoli cyffredinol sy'n gysylltiedig â digwyddiad mawr pan mae'r digwyddiad yn peri risg posibl i ddiogelwch y cyhoedd, a'r awdurdodau lleol sydd yn arwain wrth ddarparu cymorth a gwellhad i'r gymuned.

- Fel rheolydd a chynghorwr, rydym yn gweithio i leihau amlder ac effaith digwyddiadau.
- Fel cynghorwr, rydym yn darparu cyngor technegol arbenigol a data mewn perthynas ag ystod eang o bynciau i gynorthwyo ein partneriaid proffesiynol o ran y modd y maent yn ymgymryd â'u dyletswyddau rheoli digwyddiadau ac rydym yn dechrau'r gwaith adfer yn gynnar er mwyn lleihau'r effeithiau amgylcheddol.
- Fel gweithredwr, rydym yn lleihau'r tebygolrwydd o gael digwyddiadau ar y tir a reolir gennym, ac yn cynnal a chadw ein hasedau rheoli digwyddiad penodol, megis amddiffynfeydd llifogydd. Byddwn yn ymdrin bob amser â digwyddiad yn ei gyfanrwydd, gan ystyried ei ganlyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol, gan gynnwys y mesurau a ddefnyddiwyd i'w reoli.

Mae gennym waith a arweinir yn strategol, yn dactegol ac yn weithredol i sicrhau bod gennym system lywodraethu gywir ar waith ar gyfer atal, paratoi, ymateb, lleoli staff, adfer

yn dilyn y digwyddiad, ac adolygu digwyddiadau i ddangos yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu a sut yr ydym wedi datblygu i ddarparu gwasanaeth effeithiol.

Mae'r mathau o ddigwyddiadau y byddwn gyfrifol amdanynt yn bennaf yn cynnwys:

- Ymateb i a rhybuddio am lifogydd
- Safleoedd dynodedig
- Troseddau bywyd gwyllt
- Ansawdd yr aer
- Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)
- Rhywogaethau gwarchodedig
- Llygredd (aer, tir a dŵr)
- Iechyd planhigion ac anifeiliaid
- Rhywogaethau estron
- Sychder
- Digwyddiadau morol
- Sylweddau niwclear ac ymbelydrol
- Parhad busnes Cyfoeth Naturiol Cymru




## 3. Ein dull sy'n seiliedig ar risg ar gyfer categoreiddio digwyddiadau

Mae categoreiddio digwyddiadau yn rhan allweddol o'r ffordd yr ydym yn ymateb i ddigwyddiadau. Mae'n nodi sut rydym yn categoreiddio digwyddiad ac yn penderfynu ar ymateb priodol.

Mae ein Canllawiau Categoreiddio Digwyddiadau yn cynnwys fframwaith gwneud penderfyniadau er mwyn cyflawni ein swyddogaeth rheoli digwyddiadau a sicrhau ei bod yn:

- seiliedig ar risg;
- yn gyson; ac
- yn canolbwyntio ar le a phryd y gallwn gyfrannu yn y ffordd orau, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Byddwn yn categoreiddio ein hymateb i unrhyw ddigwyddiad yn unol â'r effaith wirioneddol a phosibl ar bobl, cymunedau ac amgylchedd Cymru, ac unrhyw effeithiau ar ein sefydliad ni.

Byddwn yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg wrth ymateb i ddigwyddiadau, a bydd ein hymateb yn gymesur â'r prif ffactorau canlynol:

- risg i staff, contractwyr a phobl sy'n ymweld â'n hystâd (tir, adeiladau, asedau);[1]
- ein gallu i gymryd camau gweithredu i atal neu leihau'r effaith ar yr amgylchedd;

[1] Mae asedau yn golygu tir, cyrff dŵr neu adeiladau yr ydym yn berchen arnynt neu yn eu rheoli.

- ein rôl o fewn y digwyddiad; ac
- ein henw da proffesiynol.

Gan ystyried y ffactorau uchod, mae'r prif feini prawf generig sy'n cael eu hystyried wrth asesu unrhyw ddigwyddiad fel a ganlyn:

- risg i iechyd cyhoeddus, gan gynnwys effeithiau ar ansawdd yr aer, arogleuon, sŵn, ymbelydredd, ac effaith ar amwynder;
- risg posibl i un o'n hasedau, y tir neu gyrff dŵr a reolir gennym;
- effaith ddifrifol ar adnoddau naturiol Cymru (gan gynnwys effeithiau ar aer, tir, dŵr, pysgodfeydd a bioamrywiaeth) a'r effaith ar gadwraeth a'r economi;
- llifogydd gwirioneddol neu bosibl mewn eiddo neu isadeiledd;
- ein rhan ni mewn ymateb aml-asiantaeth;
- diddordeb y cyfryngau a/neu risg i'n henw da.

Rydym yn defnyddio'r data o bob mathau o ddigwyddiadau i ddeall lle mae ein risgiau mwyaf yn bodoli er mwyn dylanwadu ar ein gwaith atal. Er enghraifft, byddwn yn rhoi cyngor i ffermwyr o ran storio slyri er mwyn atal arllwysiadau slyri a digwyddiadau llygru dŵr. Mae hyn yn arwain at ddigwyddiadau amgylcheddol llai aml a llai difrifol, sy'n fuddiol i amgylchedd, pobl ac economi Cymru.

Wrth ymateb i ddigwyddiadau, byddwn yn dilyn Egwyddor y Llygrwr sy’n Talu a, phan fo'n briodol, byddwn yn ceisio adennill costau am ein hamser wrth ymateb i a rhwystro digwyddiadau rhag achosi niwed i'r amgylchedd.

## 4. Diffiniad digwyddiad

Diffinnir digwyddiad posibl neu wirioneddol fel:

*'Digwyddiad penodol, y tynnwyd ein sylw ato ac sydd o fewn ein maes cyfrifoldebau, a allai gael effaith amgylcheddol a/neu weithrediadol ac efallai y bydd gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ymateb iddo.'*

Mae digwyddiadau sy'n codi efallai na fyddwn yn ystyried eu bod yn ddigwyddiad yn cynnwys digwyddiadau y tynnwyd ein sylw atynt:

- nad ydynt yn dod o dan ein cyfrifoldebau statudol,
- a/neu nad ydynt yn effeithio ar yr amgylchedd,
- a/neu nad ydynt yn effeithio ar ein gwaith ein hunain nac ein henw da.

## 5. Beth sydd o fewn ein cylch gorchwyl a'r tu allan iddo

O ran digwyddiadau, mae ein cylch gwaith yn cynnwys y canlynol (o bwys arbennig os ydynt yn digwydd ar ased a reolir gennym):

- difrod neu risg i'r amgylchedd naturiol;
- difrod neu risg i'n hasedau;
- achosi llygredd dŵr, tir neu aer;
- potsio neu bysgota anghyfreithlon, gan gynnwys pysgota â gwialen, rhwydi a chasglu cocos;

- torri coed yn anghyfreithlon;
- pysgod sy'n gofidio neu bysgod meirw;
- clefyd coed,
- troseddau bywyd gwyllt sydd eisoes wedi'u gwneud (dylid adrodd i'r heddlu ynglŷn â digwyddiadau cyfredol drwy ffonio'r rhif a ddefnyddir pan nad yw'n argyfwng, 101);
- llifogydd posibl neu wirioneddol a achosir gan:
  - tywydd garw, amodau llanw a/neu achosion pan fydd rhwystr, methiant, torri neu ddifrod i amddiffynfa llifogydd neu ased,
  - creu adeiladwaith a allai beri risg o lifogydd, gan gynnwys llifogydd o gwrs dŵr nad yw'n rhan o'r brif ffrwd sy'n rhan o'n hystad;
- malurion sydd â'r posibilrwydd o achosi rhwystr ar brif gwrs ddŵr;
- yr holl dipio anghyfreithlon a gollyngiadau gwastraff diwydiannol/masnachol ar ein tir;
- tipio anghyfreithlon a dympio gwastraff peryglus neu feintiau sylweddol o wastraff diwydiannol/masnachol yn anghyfreithlon, (>20 tunnell, neu lwyth gan dryc tipio) nad yw ar ein tir;
- digwyddiadau sy'n ymwneud ag arogleuon, llwch, plâu a fermin, ysbwriel, a mwd a malurion ar briffyrdd cyhoeddus mewn safleoedd a reolir gennym, megis safleoedd tirlenwi, gorsafoedd trosglwyddo gwastraff ac ati;
- llosgi gwastraff masnachol, diwydiannol neu beryglus, megis asbestos, heb drwydded;
- tynnu dŵr o neu ollwng dŵr i gyrsiau dŵr, neu wneud newidiadau iddynt, heb ein caniatâd ni;
- gostyngiadau anarferol mewn llif afonydd;
- glannau afonydd neu gamlesi sydd wedi cwympo neu sydd wedi cael eu difrodi'n wael;
- difrod i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu safleoedd gwarchodedig eraill;
- safleoedd gwastraff anghyfreithlon a chludwyr gwastraff heb drwydded;
- achosion pan welwyd dyfrgwn byw neu feirw;
- anifeiliaid meirw, ond dim ond pan gredir eu bod wedi marw o ganlyniad i lygredd, neu pan fyddant mewn prif afon ac yn debygol o achosi llifogydd neu lygredd;
- dinistrio clwydi ystlumod.

Mae digwyddiadau nad ydynt yn dod o dan ein cylch gwaith yn cynnwys y canlynol:

- gollyngiadau nwy neu amharu ar gyflenwad nwy;
- prif gyflenwad dŵr sy'n byrstio neu amharu ar gyflenwad dŵr;
- amharu ar gyflenwad trydan;
- afliwiad neu abnormaleddau i arogl neu flas dŵr yfed;
- llifogydd o ganlyniad i bibellau domestig sy'n byrstio neu orlifo gan ddraeniau’r priffyrdd;
- tipio gwastraff tŷ neu feintiau bach o wastraff masnachol yn anghyfreithlon, nad yw ar ein tir;
- sŵn domestic sy'n aflonyddu;
- arogleuon o safleoedd domestig neu eiddo nad yw’n dod o dan ein cylch gwaith;
- llosgi gwastraff domestig neu wastraff gardd;
- plâu domestig (llygod mawr, pryfed, gwenyn meirch ac ati);
- allyriadau mwg gan gerbydau;
- gwaith cynnal a chadw ffyrdd;
- draeniau a charthffosydd domestig sy'n cael eu blocio;
- niwsans o safleoedd nad ydynt yn cael eu rheoli gennym ni;

- erydu arfordirol nad yw ar ein tir;
- tirlithriadau nad ydynt yn digwydd ar ein tir;
- ymddygiad gwrthgymdeithasol ar dir nad ydym yn ei reoli;
- cwynion ynglŷn â safle a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â mater sy'n gysylltiedig â gweithgaredd nad yw'n dod o dan ein cylch gwaith;
- materion lles bywyd gwyllt, troseddau dinistrio nythod adar, dinistrio gwrychoedd ac ati ar safleoedd nad ydynt wedi'u dynodi;
- gwenwyno bywyd gwyllt – gall hysbysiadau am farwolaethau amheus neu achosion o wenwyno anifeiliaid gwyllt neu ddomestig gael eu hanfon at y Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt;
- achosion pan welwyd rhywogaethau ymledol/anfrodorol;
- anifeiliaid meirw;
- tirio morol (oni bai ei fod ar dir a reolir gennym ni) – mae gwefan Rhaglen Dirio Creaduriaid Morfilaidd y DU yn cynnwys manylion ynghylch sut i wneud adroddiad.

## 6. Sut yr ydym yn categoreiddio digwyddiadau

Ar ôl i ni gael ein hysbysu am ddigwyddiad, rydym yn categoreiddio digwyddiadau yn ôl un o'r pum lefel ganlynol, yn unol â lefel yr effaith a'r ymateb sy'n ofynnol:

- Digwyddiad Effaith Lefel Uchel
- Digwyddiad Effaith Lefel Isel
- Digwyddiad – Dim Effaith
- Cwyn
- Ddim o fewn ein cylch gwaith

### Pan fyddwn yn derbyn hysbysiad am ddigwyddiad

Byddwn yn cofnodi, yn cyfeirio ac yn categoreiddio digwyddiad o fewn un awr wedi i ni dderbyn yr hysbysiad.

### Digwyddiadau Effaith Lefel Uchel:**sut y byddwn yn ymateb ac erbyn pryd**

**Digwyddiad Effaith Lefel Uchel: digwyddiad y bydd ei effaith yn gofyn am ymateb ar unwaith iddo ar sail 24 awr, er mwyn lleihau effaith y digwyddiad.**

Ymateb ar unwaith i Ddigwyddiad Effaith Lefel Uchel yw unrhyw weithgaredd a gyflawnir yn syth ar ôl iddo gael ei gategoreiddio, boed hynny o fewn neu y tu allan i oriau swyddfa, er mwyn lleihau effaith digwyddiad ar yr amgylchedd, y bobl a'r economi. Gallai'r ymateb gynnwys y gweithgareddau canlynol cyn gynted ag y mae'n ymarferol bosibl ac o fewn pedair awr, fel sy'n ofynnol:

- cyhoeddi hysbysiadau ffurfiol;
- rhoi cyngor technegol dros y ffôn a thrwy e-bost;
- cyflwyno rhybuddion llifogydd, monitro'r lefelau o bell;
- mynychu grwpiau rheoli aml-asiantaeth, cyfathrebu ac ati;
- casglu gwybodaeth droseddol amgylcheddol benodol;
- ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau;

- bod yn bresennol yn ystod gweithgareddau safle a gweithgareddau ar y safle, casglu samplau ac ati.

Dylem ond fod yn bresennol lle mae gofyn amlwg i wneud hynny, pan fydd ein presenoldeb ar y safle yn cyfrannu'n sylweddol at leihau effeithiau'r digwyddiad, a lle nad oes modd i ni gyfrannu'n effeithiol o bell.

## Digwyddiadau Effaith Lefel Isel:sut byddwn yn ymateb ac erbyn pryd

**Digwyddiad Effaith Lefel Isel: digwyddiad nad yw ei effaith yn gofyn am ymateb ar unwaith o fewn oriau swyddfa arferol neu, os caiff ei dderbyn y tu allan i oriau swyddfa, gellir gohirio'r ymateb i oriau swyddfa arferol ac ymdrin ag ef fel gwaith gweithredol arferol ('gwaith bob dydd', h.y. fel rhan o fusnes arferol ac o fewn oriau swyddfa arferol).**

Mae'r ymateb i Ddigwyddiad Lefel Isel yn weithgaredd o fewn oriau swyddfa arferol ac fe allai gynnwys y gweithgareddau canlynol. Gall yr ymateb gynnwys y gweithgareddau canlynol o fewn oriau swyddfa, fel sy'n ofynnol:

- cyhoeddi hysbysiadau ffurfiol;
- rhoi cyngor technegol arbenigol dros y ffôn a thrwy e-bost;
- casglu data amgylcheddol penodol;
- ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau;
- ymweliad, os oes angen o gwbl – gweler yr esboniad isod.

Ni fydd y rhan fwyaf o Ddigwyddiadau Effaith Lefel Isel yn haeddu ymweliad gennym. Byddwn ond mynd i Ddigwyddiadau Effaith Lefel Isel os yw'n briodol drwy gynllunio i ymweld ar ddyddiad neu adeg hwyrach, fel rhan o'n gwaith arferol, ac yn dibynnu ar y risgiau a phenderfyniad yr asesiad.

## Digwyddiadau, cwynion a phethau eraill nad ydynt yn dod o dan ein cylch gwaith

Yn ogystal â chael ein hysbysu ynglŷn â phethau yr ystyriwn eu bod yn ddigwyddiadau, rydym yn derbyn hysbysiadau am eraill sy'n dod yn agos i, ond nad ydynt yn bodloni, y diffiniad o 'Ddigwyddiad'. Maent yn dal i fod yn ddigwyddiadau penodol, y rhoddir gwybod i ni amdanynt ac sy'n dod o dan ein maes cyfrifoldeb, ond nad ydynt yn effeithio ar yr amgylchedd a/neu ar weithrediadau mewn ffordd sy’n haeddu ymateb Digwyddiad Lefel Uchel neu Lefel Isel. Oherwydd hyn, nid ydynt yn cael eu hystyried yn 'Ddigwyddiadau', ac nid oes angen ymateb sydd o'r math 'Digwyddiad' arnynt. Serch hynny, rydym yn dal i ddymuno categoreiddio a chofnodi'r wybodaeth.

O fewn Canllawiau Categoreiddio Digwyddiadau, mae tri math o ddigwyddiad, a elwir yn 'Digwyddiadau – Dim Effaith', 'Cwynion' a 'Ddim o fewn ein Cylch Gwaith'.

- **Digwyddiad – Dim Effaith –** Mae digwyddiad yw rhywbeth sy'n digwydd neu a welwyd yr hysbyswyd i ni amdano, ond nad oes ganddo unrhyw effaith amgylcheddol neu weithredol ac felly nad yw'n haeddu ymateb Lefel Uchel neu Lefel Isel, e.e. coeden sydd wedi disgyn ar draws llwybr droed neu ar ein tir.

- **Cwyn (C) –** Mae cwyn yn rhywbeth sy'n digwydd neu a welwyd yr hysbyswyd i ni amdano, ond nad oes ganddo unrhyw effaith amgylcheddol neu weithredol ac felly nad yw'n haeddu ymateb Lefel Uchel neu Lefel Isel ond mae'r galwr yn cwyno amdano. Mae'r galwr yn tynnu sylw at y ffaith ei fod yn fwy nag ond digwyddiad (neu arsylwad) iddo, a bod hynny'n ddigon iddo fynegi'r ffaith ei fod yn anfodlon ag ef. Mae'r mathau hyn o alwadau yn adrodd am 'werth niwsans' neu 'golled o werth amwynder' yn aml.

  Os yw'r alwad yn cynnwys neu ond yn ymwneud â diffyg gweithredu canfyddedig neu wirioneddol gennym ni o ran y broblem, mae'n rhaid i'r swyddog cymwys ddilyn y Polisi Cwynion priodol a throsglwyddo'r rhan honno o'r alwad yn briodol.

  Nid yw ein Polisi Cwynion yn berthnasol os yw'n apêl gan drydydd parti yn erbyn penderfyniad 'a wnaed yn briodol' gan Cyfoeth Naturiol Cymru lle mae'r cyfreithiau, polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol wedi'u dilyn yn gywir wrth ddod i benderfyniad.

  Gall Digwyddiadau – Dim Effaith a Chwynion lywio rhaglenni monitro ac mae'n bosibl y cyfeirir atynt yn ystod gwaith gweithredol rheolaidd yn y dyfodol.

- **Ddim o fewn ein Cylch Gwaith** – Bydd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau yr hysbyswyd i ni amdanynt yn cael eu hidlo allan cyn iddynt ddod i'r Canllawiau Categoreiddio Digwyddiadau a'r System Cofnodi Digwyddiadau Cymru (WIRS), a bydd yr hysbyswr yn cael ei gyfeirio at y parti priodol.

O bryd i'w gilydd, bydd digwyddiad yn cael ei ystyried fel digwyddiad posibl ac yn cael ei gyfeirio at swyddog cymwys er mwyn cynnal asesiad. Gall yr asesiad hwnnw benderfynu nad yw'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn ddigwyddiad na chwyn fel y diffinnir uchod, gan nad yw'n dod o dan gylch gwaith na chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru. Felly, mae'n dod o dan y categori **Ddim o fewn ein Cylch Gwaith**, a dylai'r manylion llawn gael eu trosglwyddo i'r trydydd parti priodol (e.e. yr awdurdod lleol) cyn gynted â phosibl.

### Swyddogaeth ein Canolfan Cyfathrebu Digwyddiadau wrth gategoreiddio digwyddiadau

Bydd ein Canolfan Cyfathrebu Digwyddiadau yn cofnodi, yn cyfeirio, ac yn cynnal gweithgareddau rheolaidd yn ystod a'r tu allan i oriau swyddfa.

Mewn perthynas â rhai mathau o ddigwyddiadau (Lefel Uchel a Lefel Isel), bydd y Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau yn cynnal gweithgareddau rheolaidd megis hysbysiadau diwydiant neu wastraff sy'n benodol i'r safle drwy anfon e-bost neu ffacs, neu drwy ddosbarthu hysbysiadau megis adroddiadau Meteoroleg Cemegol ac Adroddiadau Llygredd Morol. Cynhelir y gweithgareddau rheolaidd hyn gan y Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau yn aml pan fydd y digwyddiad yn dal i gael ei asesu gan y swyddog cymwys o dan y Canllawiau Categoreiddio Digwyddiadau. Er bod y gweithgareddau hyn yn ffurfio rhan o ymateb cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru i ddigwyddiad, nid ydynt yn rhan ffurfiol o'r Canllawiau Categoreiddio Digwyddiadau ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y lefelau gwasanaeth uchod.

## 7. Categoreiddio cychwynnol a therfynol

Byddwn yn asesu digwyddiad yr hysbyswyd i ni amdano yn unol â'i effaith bosibl neu wirioneddol.  Mae ein hasesiad o'r wybodaeth hon yn pennu sut y byddwn yn categoreiddio'r digwyddiad ar y dechrau, ac wedyn bydd y categoreiddio cychwynnol hwnnw'n pennu lefel ein hymateb.

Mae categori terfynol a bennwyd yn cael ei gadarnhau unwaith y bydd gwybodaeth bellach yn dod i'r amlwg, efallai o ganlyniad i'n hymateb, ein hymweliad â'r safle, neu ar ôl derbyn gwybodaeth bellach gan bartneriaid proffesiynol neu bobl eraill.

Gall newid i'r categori a bennwyd o'r asesiad a chategoreiddio cychwynnol i'r asesiad a chategoreiddio terfynol ddigwydd. Mae'n fwyaf tebygol o gael ei ystyried ar gyfer digwyddiad, e.e. efallai y bydd Digwyddiad Effaith Lefel Uchel yn cael ei asesu fel Digwyddiad Effaith Lefel Isel yn y pen draw, neu i'r gwrthwyneb. Yn yr un modd, efallai y bydd digwyddiad yn cael ei ystyried o fod yn Lefel Isel, ond pan fyddwn yn ymateb yn ystod oriau swyddfa, mae'n bosibl y byddwn yn gweld na chafwyd unrhyw effaith amgylcheddol, ac felly gallai'r categori terfynol fod yn 'Ddigwyddiad – Dim Effaith'.

Mae digwyddiadau – dim effaith a chwynion yn llai tebygol o newid rhwng categoreiddio cychwynnol a therfynol, ond mae'n bosibl y bydd y naill neu’r llall yn cael ei ailasesu fel digwyddiad (lefel uchel neu isel) os daw gwybodaeth ychwanegol i law, yn enwedig os ydym yn derbyn sawl cwyn debyg ar yr un pryd.

Dylai adolygiadau a sesiynau adrodd yn ôl sicrhau adborth ynglŷn â chategoreiddio digwyddiadau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o bennu'r categori cychwynnol anghywir ar gyfer digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

## 8. Hysbysiadau a gadarnhawyd a hysbysiadau di-sail

Mae digwyddiad yn cael ei gofnodi fel un a gadarnhawyd os yw'r hyn a ddigwyddodd **wedi digwydd mewn gwirionedd.** Nid oes rhaid iddo fod wedi cael effaith amgylcheddol neu weithredol, ac nid oes angen i rywun fod yn bresennol yno.
Gall digwyddiadau a gadarnhawyd nad ydynt yn effeithio ar yr amgylchedd, neu le nad yw'n bosibl cadarnhau'r effaith, gael eu cofnodi fel Digwyddiad – Dim Effaith.

Nid oes angen mynd i ddigwyddiad er mwyn bod yn hyderus bod yr hyn yr hysbyswyd amdano wedi digwydd mewn gwirionedd. Gall digwyddiadau gael eu nodi fel rhai a gadarnhawyd, a bydd yr effaith yn cael ei chategoreiddio yn seiliedig ar wybodaeth neu dystiolaeth (e.e. ffotograffau) a roddir gan yr hysbysydd. Dylid ystyried dibynadwyedd yr hysbysydd a natur yr hyn sy'n cael ei hysbysu. Er enghraifft, efallai y bydd cwyn niwsans neu ddisgrifiad o lygrydd a'i effaith yn agored i'w ddehongli ac yn annibynadwy. Byddai nifer o hysbysiadau gyda'r un disgrifiad yn arwydd o ddibynadwyedd, yn ogystal ag adroddiadau gan awdurdodau lleol, ffynonellau y gellir ymddiried ynddynt, a phartneriaid proffesiynol eraill.

Dylai digwyddiad gael ei gofnodi fel digwyddiad di-sail pan, yn dilyn arolygiad neu asesiad, **nad oes unrhyw dystiolaeth** o'r hyn yr hysbyswyd amdano.

# Atodiad A1 – Canllawiau categoreiddio ar gyfer digwyddiadau Lefel Uchel ac Isel

Mae'r atodiadau hyn yn ganllawiau ar gyfer ein staff sy'n ymateb i ddigwyddiadau ac maent yn cynnwys iaith dechnegol.

## A1.1 Effaith ar iechyd cyhoeddus

Unrhyw ddigwyddiad sydd wedi neu a allai gael effaith sylweddol ar iechyd neu deimladau'r cyhoedd.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- perygl/risg i'r rhai sy'n ymwelwyr â'n hystad;
- adegau pan fo'r cyhoedd yn agored i sylweddau peryglus drwy amlygiad i lygrydd, gan gynnwys allyriadau i'r aer (o ffynhonnell a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu weithgaredd gan Cyfoeth Naturiol Cymru), i ddŵr (wyneb a daear) neu dir (gan gynnwys deunydd gwenwynig neu beryglus a gwaredu anghyfreithlon neu heb awdurdod);
- llygru dŵr wyneb a dŵr daear sydd â'r potensial o achosi risg iechyd cyhoeddus gan gynnwys tynnu dŵr;
- digwyddiad algaidd gwyrddlas ar gorff dwr sy'n eiddo i, neu'n cael ei reoli gan, Cyfoeth Naturiol Cymru, neu safle newydd nad yw wedi cael ei effeithio o'r blaen gan flodau algaidd sy'n tyfu;
- achos o glefyd planhigion/anifeiliaid sy'n lledu'n sylweddol;
- Ymateb y Gwasanaeth Tân – newid mewn technegau ymladd tân a allai ryddhau sylweddau peryglus i'r aer, neu unrhyw sylweddau peryglus sy'n cael eu rhyddhau i ddŵr neu dir;
- digwyddiad niwclear/Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol sy'n cynnwys deunyddiau ymbelydrol a llygru y mae angen cymryd camau yn ei erbyn;
- synau nad ydynt yn arferol ac effaith hirfaith o ganlyniad i weithred a reolir gennym ni;
- arogl sy'n ddigon ffiaidd a pharhaus i gael effaith sylweddol ar synhwyrau dynol o ganlyniad i weithgareddau a reoleiddir neu a wneir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • marwolaeth, effaith ddifrifol neu sylweddol ar iechyd pobl (ysbyty) o ganlyniad i'r digwyddiad. Pobl sydd angen triniaeth gan feddyg teulu neu nifer o bobl sy'n cwyno oherwydd effeithiau mân i iechyd o ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad.<br>• adegau pan fo'r cyhoedd yn agored i lefelau o grynodiadau dros ardal eang neu leol sy'n arwain at risgiau iechyd difrifol a hysbys yn y tymor hir ac yn y tymor byr yn dilyn digwyddiad mewn safle a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n debygol o achosi gwacáu neu roi cyngor i gysgodi, neu gau/rhwystro adnodd amwynder lefel uchel.<br>• mae Grŵp Cydlynu Strategol Aml-asiantaeth (Aur), Grŵp Cydlynu Tactegol (Arian) neu grŵp aml-asiantaethol arall wedi ei sefydlu neu efallai y caiff ei sefydlu ac yn gofyn am gymorth Cell Ansawdd Aer.<br>• bernir bod risg sylweddol posibl i iechyd cyhoeddus neu'r amgylchedd drwy amlygiad i lygryddion sy'n cael eu rhyddhau i'r awyr fel y nodwyd gan y Gell Ansawdd Aer. |

| | |
|---|---|
| | • arogleuon – gan ffynhonnell a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n debygol o gael effaith ddifrifol a niweidiol i synhwyrau dynol, gan gynnwys hunan-wacáu.<br>• sŵn – sy'n dod o ffynhonnell a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n amharu llawer ar synhwyrau dynol ac yn rhwystro cwsg mewn ardal breswyl neu dderbynnydd sensitif, e.e. cartref preswyl neu ysbyty.<br>• Plâu, fermin – o ffynhonnell a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n effeithio ar dderbynydd sensitif, e.e. ysbyty neu ardal breswyl.<br>• digwyddiad diogelwch y cyhoedd ar ein tir ni – ymwelydd sy'n marw neu'n colli coes neu fraich (caiff y digwyddiad ei reoli drwy'r broses rheoli digwyddiadau). |
| Isel<br><br>effaith fach | • mân anafiad neu effaith fach ar iechyd pobl (grwpiau unigol o bobl yn cwyno oherwydd effeithiau ar eu hiechyd) fel canlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad.<br>• aelodau o'r cyhoedd yn cael eu hamlygu i lefelau o grynodiadau sy'n peri'r risg lleiaf posibl i iechyd.<br>• debygol o amharu ar y synhwyrau (bydd y cyhoedd yn debygol o ymateb drwy gau ffenestri ac ati). |

### A1.2 Effaith ar, neu o ganlyniad i, asedau Cyfoeth Naturiol Cymru

Unrhyw ddigwyddiad sydd yn, neu a allai effeithio ar, ased sy'n eiddo i neu a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, neu unrhyw ddigwyddiad o ganlyniad i ased sy'n eiddo i neu a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae enghreifftiau yn cynnwys difrod yn dilyn storm neu dywydd garw, llifogydd, tirlithriad sy'n effeithio ar fywyd, eiddo, adeiladau busnes a seilwaith pwysig, neu ddigwyddiad diogelwch y cyhoedd ar ein tir – ymwelydd sy'n marw neu'n colli coes neu fraich (gweler hefyd risg i'n henw da – caiff y digwyddiad ei reoli drwy'r broses rheoli digwyddiadau).

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | Effaith niweidiol sylweddol:<br>• effaith barhaus neu sylweddol gan afiechyd planhigyn neu bla sy'n effeithio ar un ardal gynaeafu neu fwy. Colli neu'r posibilrwydd o golli safleoedd cynaeafu ac ailddyrannu gwaith gweithredol.<br>• storm neu ddifrod tywydd difrifol neu lifogydd.<br>• tirlithriad mawr neu sylweddol sydd ar fin achosi niwed neu a allai ddifrodi pobl neu gymunedau, isadeiledd, neu gael effaith fawr ar rhwydwaith y rheilffyrdd, ffyrdd a chyfleustodau.<br>• digwyddiad (gan gynnwys digwyddiad aml-asiantaeth) ar ein tir ni megis tân neu dân gwyllt sydd angen ymateb cydlynol.<br>• perygl neu risg i ymwelwyr cyhoeddus ar Ystad Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>• effaith ein hystad yn allanol, e.e. 'cyflenwad' dŵr llifogydd, coed sy'n disgyn ar draws ffyrdd cyhoeddus. Difrod i eiddo trydydd parti.<br>• digwyddiadau gwrthgymdeithasol gyda dros 100 o bobl yn bresennol sydd angen y gwasanaethau brys.<br>• digwyddiad Parhad Busnes gydag effaith amgylcheddol neu weithredol. |
| Isel | Effaith gyfyngedig i'r tir a reolir gennym:<br>• difrod gwrthdroadwy ar raddfa fechan a byrdymor i'n tir. |

| | |
|---|---|
| effaith fân | • effaith ynysedig gan afiechyd planhigyn neu bla.<br>• effaith gyfyngedig yn dilyn tirlithriad sy'n effeithio ar ardaloedd coedwig nad ydynt yn agos at ardaloedd o fynediad uchel gan y cyhoedd.<br>• hysbysiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ynysedig a reolir gan y gwasanaethau brys.<br>• datgoedwigo gan drydydd parti (dwyn neu gwympo coed anghyfreithlon honedig) ar dir yr ydym yn berchen arno neu yn ei reoli. |

## A1.3 Effaith ar gadwraeth natur a bioamrywiaeth

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • effaith niweidiol sylweddol ar safle neu rywogaeth a warchodir yn statudol neu gorff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.<br>• effaith niweidiol sylweddol ar safle Ardal Gadwraeth Arbennig/Ardal Gwarchodaeth Arbennig/Ramsar sy'n cyrraedd neu'n cynnal ei gyflwr ffafriol.<br>• dirywiad mawr/parhaus hirdymor mewn statws (posibl neu wirioneddol) i gorff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar ei nod o gyrraedd neu gynnal ei gyflwr ffafriol.<br>• niwed i Rywogaeth a Warchodir gan Ewrop neu ei chynefin sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar ei nod o gyrraedd neu gynnal ei chyflwr ffafriol.<br>• effaith fawr neu sylweddol hirdymor ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.<br>• effaith barhaus, helaeth neu sylweddol i rywogaeth a warchodir (yn ystod unrhyw gam o'r cylch bywyd) neu ei chynefin.<br>• goblygiadau o dan y Rheoliadau Difrod Amgylcheddol.<br>• dirywiad byrdymor sylweddol mewn statws (posibl neu wirioneddol) o gorff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (o fewn y cyfnod adrodd pum mlynedd).<br>• troseddau Adran 30 (cyflwyno pysgod), pan fydd cyflwyno pysgod i ddŵr gorfodol yn peri risg mawr i gyflenwadau presennol neu ecoleg leol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno pysgod anfrodorol i ddŵr agored neu ddŵr nad yw'n orfodol (dŵr caeedig) neu ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwyddedau (Mewnforio Pysgod Byw). |
| Isel<br><br>effaith fân | • difrod gwrthdroadwy ar raddfa fechan, fyrdymor i Ardal Gadwraeth Arbennig/Ardal Gwarchodaeth Arbennig/Safle Ramsar/Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.<br>• tirio morol a marwolaeth creaduriaid morfilaidd (ar ein daliadau tir yn unig).<br>• dim effaith ar statws nac amcanion corff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.<br>• troseddau Adran 30, lle na fydd cyflwyno pysgod yn peri unrhyw risg hysbys i gyflenwadau presennol neu ecoleg leol. |

## A1.4 Effaith ar yr aer

| Categori | Arweiniad |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • gollwng sylweddau sy'n achosi'n uniongyrchol neu'n arwain at fynd yn groes i safonau Strategaeth Ansawdd Aer y DU yn sylweddol am gyfnod parhaus, ar draws ardal eang, gan weithgareddau a reoleiddir gennym ni.<br>• dirywiad helaeth neu sylweddol mewn ansawdd aer o ganlyniad i ollwng meintiau sylweddol o sylweddau gwenwynig. Gallai hyn ddigwydd yn dilyn colled ddifrifol o reolaeth, tân mawr neu offer sy'n methu'n gyfan gwbl. Dirywiad amlwg a pharhaol mewn ansawdd aer lleol gan ffynonellau gweladwy (llwch ac alldafliad gronynnol) neu allyriadau o sylweddau gwenwynig o ganlyniad i weithgaredd a reoleiddir gennym ni<br>• gollwng meintiau sylweddol iawn o sylweddau nad oes hawl eu cynhyrchu a/neu eu defnyddio (megis CFCau sy'n gysylltiedig â chynhesu byd eang neu'n disbyddu'r haen osôn). Gollwng meintiau sylweddol iawn o sylweddau nad oes hawl eu cynhyrchu a/neu eu defnyddio (megis CFCau sy'n gysylltiedig â chynhesu byd eang neu'n disbyddu'r haen osôn) o ganlyniad i weithgareddau a reoleiddir gennym ni.<br>• mae Grŵp Cydlynu Strategol Aml-asiantaeth (Aur), Grŵp Cydlynu Tactegol (Arian) neu grŵp aml-asiantaethol arall wedi ei sefydlu neu efallai y caiff ei sefydlu ac yn gofyn am gymorth Cell Ansawdd Aer Cymru; neu<br>• fernir bod risg posibl sylweddol i iechyd cyhoeddus neu'r amgylchedd drwy amlygiad i lygryddion sy'n cael eu gollwng i'r aer.<br>• effaith fawr neu sylweddol ar werth amwynder sy'n golygu bod gweithgaredd hamddenol neu ddigwyddiad cyhoeddus pwysig yn cael ei ganslo neu ei effeithio'n sylweddol, gan rwystro'r amrediad arferol o weithgareddau rhag cael eu cynnal. |
| Isel – effaith fân | • effaith tymor byrrach, leol ar ansawdd aer sy'n deillio o arogleuon neu effaith weledol (mwg a llwch).<br>• effaith fach ar werth amwynder a/neu ansawdd esthetig. |

### A1.5 Effaith o ganlyniad i sŵn

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • sŵn – sy'n dod o ffynhonnell a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac sy'n amharu llawer ar synhwyrau dynol ac yn rhwystro cwsg mewn ardal breswyl neu dderbynydd sensitif, e.e. cartref preswyl neu ysbyty. |
| Isel – effaith fach | • sŵn sydd ychydig yn dramgwyddus, tymor byr a/neu ysbeidiol sy'n achosi'r niwed lleiaf i synhwyrau dynol. |

### A1.6 Effaith gan arogleuon

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, | • arogl sy'n ddigon ffiaidd a pharhaus i gael effaith sylweddol ar synhwyrau dynol o ganlyniad i weithgareddau a reoleiddir neu a wneir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. |

| | |
|---|---|
| barhaus, helaeth neu sylweddol | • arogl o ffynhonnell a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n debygol o amharu'n ddifrifol ac achosi niwed i synhwyrau dynol, gan gynnwys hunan-wacáu. |
| Isel – effaith fach | • arogl sydd ychydig yn dramgwyddus, tymor byr a/neu ysbeidiol sy'n achosi'r niwed lleiaf posibl i synhwyrau dynol. |

## A1.7 Effaith ar dir

Mae 'tir' yn cynnwys unrhyw effaith ar bridd, yr amgylchedd adeiledig ac unrhyw beth sy'n rhan o'r ecosystem ddaearol (megis planhigion ac anifeiliaid). Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gollyngiadau diwydiannol neu weithgareddau gwastraff anghyfreithlon sy'n llygru'r tir yn y pen draw.

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • llygru parhaol a/neu helaeth o dir sy'n cael effaith fawr ar ddefnydd neu ansawdd y tir hwnnw ac y mae'n debygol y bydd angen cymryd camau dadlygru helaeth arno.<br>• llygru sylweddol ond lleol o dir sy'n cael effaith sylweddol ar ddefnydd neu ansawdd y tir hwnnw.<br>• tipio a dympio gwastraff peryglus neu feintiau sylweddol o wastraff diwydiannol/masnachol yn anghyfreithlon, (>20 tunnell, neu lwyth gan dryc tipio) nad yw'n digwydd ar ein tir sy'n cynnwys gwastraff gwenwynig/peryglus neu wastraff heintus sy'n peri risg uniongyrchol o achosi llygredd difrifol neu ddifrod i bobl. Dim de minimis ar gyfer gwastraff sy'n cael ei ollwng ar ein tir yn anghyfreithlon ac yn peri risg uniongyrchol o achosi llygredd difrifol.<br>• effaith fawr neu sylweddol ar werth amwynder sy'n golygu bod gweithgaredd hamddenol neu ddigwyddiad cyhoeddus pwysig yn cael ei ganslo neu ei effeithio'n sylweddol, gan rwystro'r amrediad arferol o weithgareddau rhag cael eu cynnal. |
| Isel – effaith fach | • llygru di-nod neu dros dro o dir nad yw'n cael unrhyw effaith gyffredinol ar ddefnydd nac ansawdd y tir hwnnw. Er enghraifft, pan fydd darn o dir wedi cael ei lygru gan feintiau bach o ysbwriel sy'n achosi'r llygredd lleiaf posibl.<br>• yr holl dipio a gollyngiadau gwastraff diwydiannol/masnachol anghyfreithlon ar ein tir;<br>• effaith fach ar werth amwynder a/neu ansawdd esthetig.<br>• datgoedwigo gan drydydd parti (dwyn neu gwympo coed anghyfreithlon honedig). |

## A1.8 Effaith ar ddŵr, gan gynnwys lladd pysgod

Mae 'dŵr' yn cynnwys dŵr wyneb (dyfroedd croyw mewndirol, dyfroedd arfordirol a dyfroedd tiriogaethol perthnasol fel y diffinnir mewn Adran 104 Deddf Adnoddau Dŵr 1991) a dŵr daear (yr holl ddŵr sy'n is nag wyneb y tir yn y parth trwytho ac mewn cyswllt uniongyrchol â'r tir neu'r isbridd). Mae gwely afon sych yn rhan o'r cwrs dŵr ac felly'n rhan o ddŵr wyneb.

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | Effaith helaeth a pharhaus a/neu sylweddol ar ansawdd dŵr sy'n cael effaith ddifrifol ar ansawdd y dŵr hwnnw neu'r defnydd ohono.<br><br>Difrifol<br>• o ran dŵr wyneb, mae effeithiau 'difrifol' yn cynnwys meintiau o sylwedd (neu sylweddau) peryglus sy'n mynd dros lefelau gwenwynedd y |

| | |
|---|---|
| | gwyddys eu bod yn achosi niwed difrifol/lladd bywyd dyfrol neu lefelau ocsigen toddedig sy'n disgyn i lefelau critigol.<br>• o ran dŵr daear, effeithiau 'difrifol' yw pam mae'n hysbys bod llygreddau wedi achosi neu mewn meintiau neu grynodiadau digonol eu bod yn debygol o achosi:<br>• yr effeithiau difrifol a ddisgrifir uchod ar gyfer dŵr wyneb o ganlyniad i lygreddau difrifol a drosglwyddir yn llif y dŵr daear;<br>• mynd dros unrhyw safon ansawdd sy'n berthnasol i lygredd peryglus neu nad yw'n beryglus mewn dyfrdwll, ffynnon neu gyflenwad a ddefnyddir gan bobl; neu<br>• sylweddau peryglus (fel y nodir yn Rheoliadau y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr/Dŵr Ddaear) y canfyddir eu bod yn uwch na'r lefelau sydd eisoes yn bodoli yn y dŵr daear sydd y tu hwnt i 50m mewn unrhyw ddyfrhaen.<br>• achosion pan fydd yn angenrheidiol cau man tynnu dŵr wyneb neu ddŵr daear yfadwy sy'n strategol bwysig, er mwyn atal llygredd neu lygru pellach o'r ffynhonnell honno, o ganlyniad i ddirywiad gwirioneddol mewn ansawdd y dŵr.<br><br>Helaeth<br>• o ran dŵr wyneb, mae 'helaeth' yn golygu effaith dros sawl cilomedr i gwrs dŵr neu ran sylweddol o ddŵr llonydd neu ddyfroedd arfordirol.<br>• o ran dŵr daear, mae 'helaeth' yn cyfeirio at ddigwyddiadau sy'n debygol o arwain at ardal lygredig sy'n estyn y tu hwnt i 50m mewn unrhyw ddyfrhaen o ganlyniad i'r meintiau a'r crynodiadau cysylltiedig.<br><br>Parhaus<br>• o ran dŵr wyneb, mae 'parhaus' yn golygu bod effaith yn dal i fod yn amlwg o leiaf saith diwrnod wedi'r dyddiad pan fydd y llygredd hwnnw yn cyrraedd y dŵr.<br>• o ran dŵr daear, bydd y llygredd yn barhaus bron bob amser, ar gyfer digwyddiadau cymharol fach hyd yn oed.<br><br>Sylweddol<br>• effaith sylweddol ond sydd fel arfer yn lleol ar ansawdd y dŵr sy'n cael effaith sylweddol ar ansawdd y dŵr hwnnw neu'r defnydd ohono.<br>• o ran dŵr wyneb – gall effeithiau fod hyd at ychydig o gannoedd o fetrau mewn corff dŵr mwy neu effeithiau dros nifer o gilomedrau.<br>• o ran dŵr ddaear, effaith 'sylweddol' yw pam mae'n hysbys bod llygreddau wedi achosi neu mewn meintiau digonol eu bod yn debygol o achosi:<br>• yr effeithiau a ddisgrifir uchod ar ddŵr wyneb o ganlyniad i lygreddau a drosglwyddir yn llif y dŵr daear;<br>• sylweddau peryglus y canfyddir eu bod yn uwch na'r lefelau sydd eisoes yn bodoli yn y dŵr daear o fewn 50 metr;<br>• cau rhagofalus man tynnu dŵr wyneb neu ddŵr daear yfadwy sy'n strategol bwysig er mwyn atal y ffynhonell honno rhag cael ei llygru. |

| | |
|---|---|
| | • achosion pan fydd yn angenrheidiol cau man tynnu dŵr wyneb neu ddŵr daear yfadwy heb drwydded (sy'n gwasanaethu un neu ddwy aelwyd, er enghraifft) o ganlyniad i ddirywiad gwirioneddol mewn ansawdd y dŵr.<br>• camau gweithredu sylweddol neu driniaeth sy'n ofynnol gan y gweithredwr er mwyn mynd i'r afael â dirywiad mewn ansawdd y dŵr, megis cymysgu gyda dŵr nad yw'n llygredig.<br><br>Effaith barhaus ar bysgod (sylweddol)<br>• dinistrio neu ddifrod sylweddol i boblogaeth, cynefin neu ecosystem pysgod.<br>• o ran pysgodfa, mae difrod sylweddol yn debygol o ymwneud ag achos mawr o ladd pysgod sy'n effeithio ar ran helaeth o'r dalgylch neu achos o afiechyd pysgod hysbysadwy sy'n lledu gan effeithio'r rhan fwyaf o'r boblogaeth pysgod o fewn dalgylch cyfan (e.e. achos o Gyrodactylus sy'n lledu).<br>• dinistrio neu ddifrod sylweddol i ardal bwysig o gynefin pysgod. Mae hyn yn cynnwys dinistrio ardaloedd y mae'n hysbys eu bod yn cael eu defnyddio i silio gan salmonidau mudol.<br><br>Effaith sylweddol ar bysgod<br>• difrod sylweddol i boblogaeth neu gynefin pysgod.<br>• mae'n debygol y bydd difrod sylweddol yn ymwneud â marwolaeth tri neu fwy o eogiaid/sewin aeddfed pan ystyrir bod y poblogaethau'n 'Mewn Perygl' neu 'Mwy na Thebyg Mewn Perygl', neu 50 brithyll aeddfed (cysylltwch â swyddogion technegol pysgodfeydd lleol).<br>• neu fwy na 100 o salmonidau mudol ifanc, neu dros 50 brithyll brown aeddfed. (Noder yng Nghymru mai dwysedd cyfartalog salmonidau mudol ifanc mewn nant 4 metr o led yw tua 50 am bob 100m$^2$. Felly mae digwyddiad sy'n ymwneud â lladd pysgod dros sawl 100m o nant yn debygol o fod yn arwyddocaol. Cysylltwch â swyddogion technegol pysgodfeydd lleol.)<br>• o ran rhywogaethau eraill (e.e. llysywen, lamprai, sildyn, penlletwad ac ati), byddai hyn fel arfer yn ymwneud â mwy na 100 o bysgod sy'n marw, ond mae'n dibynnu ar ecoleg y corff dŵr.<br>• difrod sylweddol neu ddinistrio lleol i gynefin pysgod, yn enwedig mannau silio<br>• llygri difrifol neu rannau helaeth o wely'r cwrs dŵr, colofn neu arwynebedd y dŵr. |
| Isel – effaith fach | • Mae effaith isel yn debygol o ganlyniad i un neu ddau eog aeddfed neu sewin yn cael eu lladd pan fo'r cwrs dŵr yn cael ei ddosbarthu'n 'Ddim mewn Perygl' neu 'Mwy na Thebyg Ddim Mewn Perygl' (cysylltwch â swyddogion technegol pysgodfeydd lleol).<br>• effaith gyfyng a lleol ar ansawdd y dŵr sy'n cael yr effaith leiaf posibl ar ansawdd y dŵr hwnnw neu'r defnydd ohono.<br>• o ran dŵr wyneb, mae'r effeithiau fel arfer yn lleol o gwmpas y man gollwng.<br>• o ran dŵr daear, mae'r effeithiau fel arfer yn lleol o gwmpas y man gollwng ac nid yw'r llygredd yn debygol o ledu o fewn haenau daearegol. Effeithiau lleiaf posibl. |

| | |
|---|---|
| | • cau rhagofalus o arwynebedd dŵr daear yfed heb drwydded neu fan tynnu dŵr wyneb.<br>• mân weithred neu driniaeth sy'n ofynnol gan y gweithredwr i fynd i'r afael â dirywiad yn ansawdd y dŵr.<br>• colled fân o gynefin pysgod neu ychydig o farwolaethau pysgod sy'n ymwneud â cholli nifer fach o rywogaethau eilradd megis y grothell a/neu ddim mwy na deg pysgodyn bras mewn pysgodfa. |

## A1.9 Effaith ar ddŵr, gan gyfeirio at iechyd pobl

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | Effaith ddifrifol neu sylweddol ar iechyd pobl<br>• marwolaeth neu effaith ddifrifol ar iechyd pobl o ganlyniad i gysylltiad uniongyrchol/amlygiad i lygryddion mewn dŵr wyneb, neu drwy gyflenwi dŵr yfed llygredig yn dilyn digwyddiad mewn dŵr wyneb neu ddŵr daear.<br>• mae risg i iechyd pobl pan fydd lefelau tocsin algaidd yn uwch na gwerthoedd y trothwy rhybuddio ar gyfer dŵr hamdden neu ddŵr yfed.<br>• aelodau'r cyhoedd yn cael eu hamlygu i lefelau o grynodiadau dros ardal eang sy'n achosi risgiau iechyd difrifol a hysbys o ganlyniad i halogi dŵr wyneb neu ddŵr daear yn dilyn digwyddiad llygredd neu algaidd.<br>• cyflenwad dŵr yfed llygredig sy'n cynnwys lefelau o lygryddion/pathogenau sy'n uwch na'r cyfyngiadau gwenwynegol hysbys y gwyddys eu bod yn achosi problemau iechyd difrifol.<br>• effaith sylweddol ar iechyd pobl o ganlyniad i gysylltiad/amlygiad uniongyrchol i lygryddion mewn dŵr arwynebol neu ddŵr daear, neu drwy gyflenwi dŵr yfed llygredig yn dilyn digwyddiad. Er enghraifft, sawl unigolyn gyda gastroenteritis.<br>• nifer o gwynion o effeithiau mân ar iechyd o ganlyniad i halogiad dŵr wyneb neu ddŵr daear yn dilyn digwyddiad llygredd neu algaidd. |
| Isel – effaith fach | Effaith leiaf posibl ar iechyd pobl<br>• aelodau'r cyhoedd yn cael eu hamlygu i lefelau o grynodiadau sy'n achosi problemau iechyd mân o ganlyniad i halogiad dŵr wyneb neu ddŵr daear yn dilyn digwyddiad llygredd neu algaidd, neu drwy gyflenwi dŵr yfed llygredig yn dilyn digwyddiad.<br>• mae problemau iechyd mân yn cynnwys rhai unigolion gyda gyddfau tost dros dro. Cymhwyswch risg uchel pan fydd nifer o gwynion ynglŷn ag effeithiau mân ar iechyd yn cael eu hadrodd.<br>• aelodau o'r cyhoedd yn cael eu hamlygu i lefelau o grynodiadau nad ydynt yn peri unrhyw risg hysbys neu'r risg lleiaf posibl i iechyd. |

## A1.10 Effaith ar ddŵr, gan gyfeirio at werth amwynder

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – | Effaith niweidiol iawn neu sylweddol ar weithgaredd hamdden pwysig neu ddigwyddiad cenedlaethol. |

| | |
|---|---|
| effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • er enghraifft, digwyddiad genweirio cenedlaethol, gweithgaredd cychod cenedlaethol, neu driathlon mawr sy'n cael ei ganslo neu ei ohirio.<br>• achosion pan fydd yn angenrheidiol cau – neu effaith niweidiol ar – draeth ymdrochi a ddiogelir dan gyfraith Ewrop neu draeth ymdrochi poblogaidd arall, sy'n golygu bod gweithgareddau arferol yn cael eu rhwystro. Er enghraifft, hysbysiadau sy'n rhoi cyngor i beidio ag ymdrochi ar draeth poblogaidd iawn am wythnos yn anterth yr haf neu yn ystod gwŷl banc.<br>• mae hyn yn cynnwys digwyddiadau pan fydd dŵr daear wedi cael ei lygru a phan yr ystyrir ei fod yn debygol y bydd llygru dŵr wyneb sydd wedi'i oedi yn cael effaith niweidiol uniongyrchol ar y digwyddiad.<br>• mae hyn yn cynnwys gweithgareddau hamddenol mawr yn y dŵr sy'n cael eu hatal yn rhannol neu'n gyfan gwbl o ganlyniad i algâu sy'n lledu.<br>• effaith niweidiol sylweddol ar weithgaredd hamdden neu ddigwyddiad sy'n berthnasol i'r arwynebedd dŵr yr effeithir arno.<br>• mae hyn yn cynnwys gohirio digwyddiadau nofio mewn cronfeydd dŵr, rasio rafftiau, sgïo jet o ganlyniad i lysnafedd cyanobacterial lle mae'n rhaid i berchennog y corff dŵr godi arwyddion rhybudd.<br>• effaith niweidiol sylweddol ar ansawdd esthetig, e.e. gweddillion carthion sylweddol sy'n cael eu gollwng mewn dŵr wyneb wrth ymyl preswylfeydd preifat neu fannau hamdden poblogaidd. |
| Isel – effaith fach | Effaith fach ar werth amwynder<br>• effaith fach ar werth amwynder a/neu ansawdd esthetig. Er enghraifft, ychydig bach o sbwriel mewn nant, haen tenau o olew, twf algaidd diwenwyn tenau, neu newidiadau lliw nad ydynt yn niweidiol. |

## A1.11 Effaith ar ddŵr, gan gyfeirio at amaethyddiaeth a masnach

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | Difrod mawr neu sylweddol i amaethyddiaeth/masnach<br>• difrod, gan gynnwys difrod ariannol, i weithgaredd amaethyddol. Gallai hyn gael ei achosi gan:<br>  – dinistrio, neu ddifrod, i stoc fferm bysgod, cnydau neu dda byw, gan gynnwys ffermydd berwr y dŵr a fwydir drwy ddŵr daear, o ganlyniad i dynnu/defnyddio dŵr llygredig yn dilyn digwyddiad llygredd.<br>  – dinistrio, neu ddifrod, i bysgod cregyn neu stoc fferm bysgod oherwydd algâu sy'n cynhyrchu tocsinau.<br>• achosion pan fydd yn angenrheidiol cau man tynnu dŵr amaethyddol pwysig, er mwyn atal y ffynhonell honno rhag cael ei llygru neu gael ei llygru ymhellach. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau lle y bernir nad yw ansawdd y dŵr yn addas ar gyfer dyfrio stoc, neu y gall achosi difrod megis colli rhan o gnwd.<br>• tarfu ar fuddion masnachol megis cau safle diwydiannol dros gyfnod estynedig neu amharu'n ddifrifol ar gynhyrchiant.<br>• cynnyrch sy'n cael ei lygru'n helaeth neu ymyriad hirdymor ar gynhyrchu (diwrnod fel canllaw) o ganlyniad i dynnu a defnyddio dŵr llygredig yn dilyn digwyddiad llygredd neu algaidd. |

| | |
|---|---|
| | • difrod sylweddol, gan gynnwys difrod ariannol nodedig, i weithgaredd amaethyddol. Gallai hyn gael ei achosi gan:<br>– difrod sylweddol i stoc fferm bysgod, cnydau neu dda byw, o ganlyniad i dynnu a defnyddio dŵr llygredig yn dilyn digwyddiad llygredd.<br>– difrod sylweddol i bysgod cregyn neu stoc fferm bysgod oherwydd algâu sy'n cynhyrchu tocsinau.<br>– cau man tynnu dŵr amaethyddol. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau lle y bernir nad yw ansawdd y dŵr yn addas ar gyfer dyfrio stoc, neu y gall achosi difrod megis colli rhan o gnwd.<br>• tarfu sylweddol ar fuddion masnachol o ganlyniad i:<br>– halogiad cyfyngedig o gynnyrch neu ymyriad tymor byr ar gynhyrchu (sawl awr fel canllaw) o ganlyniad i dynnu a defnyddio dŵr llygredig yn dilyn digwyddiad llygredd neu algaidd.<br>– cau man tynnu dŵr amaethyddol. |
| Isel – effaith fach | • dŵr daear neu ddŵr wyneb yr effeithir arno mewn ffordd sy'n arwain at effaith fach a difrod ariannol bach i amaethyddiaeth neu fasnach. |

### A1.12 Effaith ar bysgodfeydd

**NODER: Mae'r holl ymatebion yn dibynnu ar argaeledd adnoddau.** Dim ond swyddogion a benodir fel Beilïaid Dŵr o dan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 sy'n cael ymateb i hysbysiadau am bysgota anghyfreithlon, a dim ond y rhai a warentir o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 sy'n cael ymateb i gwynion ynglŷn â chasglu cocos yn anghyfreithlon.

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel - effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | Salmonidau mudol<br>• gweithgarwch anghyfreithlon sy'n cynnwys defnyddio unrhyw offeryn a waherddir (e.e. gwaywffon, tryfer, rhwyd) mewn ardal lle y gall eogiaid neu sewin fod yn bresennol, e.e. aberoedd neu afonydd, mewn dalgylchoedd lle mae'r naill rywogaeth yn dod o dan statws 'mewn perygl' neu 'mwy na thebyg mewn perygl'.<br>• pysgota â gwialen neu linyn mewn ardal a waherddir, e.e. ger coredau lle mae salmonidau mudol yn ymgynnull ac yn dod yn hawdd eu targedu, mewn dalgylchoedd lle mae'r naill rywogaeth yn dod o dan statws 'mewn perygl' neu 'mwy na thebyg mewn perygl'.<br>• dal â gwialen neu linyn, lladd bwriadol a/neu gymryd unrhyw salmonid mudol aeddfed ar adeg pan fo rheoliadau dal a gollwng gorfodol yn berthnasol ar gyfer y rhywogaeth honno mewn dalgylch yr ystyrir bod eogiaid 'mewn perygl' neu 'mwy na thebyg mewn perygl' yno.<br>• pysgota am salmonidau mudol gydag offer gwialen neu linyn sy'n gallu eu casglu heb drwydded ddilys.<br>• troseddau is-ddeddf sy'n berthnasol i wialen neu linyn, e.e. cyfyngiadau ar feintiau lleiaf, abwydod a llithiau, pysgota y tu allan i'r tymor lle mai'r eog neu’r brithyll mudol yw'r rhywogaeth darged.<br>• tramgwyddo sylweddol yn erbyn amod trwydded rhwyd salmonidau mudol neu is-ddeddf berthnasol, e.e. maint rhwyll rhy fach, methu â thagio pysgod, pysgota y tu allan i'r man dynodedig. |

| | |
|---|---|
| | Llyswennod/llyswennod ifanc<br>• pysgota heb drwydded am lyswennod ifanc<br>• pysgota'n anghyfreithlon am lyswennod (targedu bwriadol), e.e. rhwydo fyke anghyfreithlon.<br>• cymryd llyswennod mewn modd anghyfreithlon gan ddefnyddio gwialen neu linyn.<br>Pysgod bras, brithyllod anfudol, lampreiod neu frwyniaid<br>• rhwydo pysgod bras neu frithyllod mewn modd anghyfreithlon mewn dŵr amgaeedig neu gyrff dŵr sydd wedi eu stocio ar gyfer pysgota â gwialen (e.e. camlesi) lle mae'n debygol y bydd llawer o bysgod meirw.<br><br>Casglu cocos<br>• casglu cocos heb drwydded o fewn pysgodfa reoledig.<br>• casglu cocos mewn gwlâu caeedig mewn modd anghyfreithlon.<br>• cyflwyno cocos i mewn i system aber.<br>• torri amod trwydded yn sylweddol. Er enghraifft, defnyddio offeryn heb ei awdurdodi i gasglu cocos (e.e. rhwyd neu ben rhacan >30cm) neu gasglu mwy na'r cwota beunyddiol.<br>Cyflwyno pysgod yn anghyfreithlon<br>• cyflwyno rhywogaeth anfrodorol neu gyflwyno pysgod i ardal warchodedig.<br><br>Cimwch yr afon<br>• dal unrhyw gimwch afon anfrodorol yn anghyfreithlon lle mae cimwch afon brodorol yn bresennol. |
| Isel – effaith fach | Salmonidau mudol<br>• pysgota heb drwydded mewn ardal lle mae salmonidau mudol yn debygol o fod yn bresennol.<br>• torri is-ddeddfau sy'n gymwys i'r abwyd a ddefnyddir.<br><br>Pysgod bras, brithyllod anfudol, lampreiod neu frwyniaid<br>• pysgota heb drwydded am salmonidau anfudol<br>• troseddau is-ddeddf gwialen neu linyn, e.e. cyfyngiadau ar feintiau lleiaf, abwydod a llithiau, pysgota y tu allan i'r tymor lle mai brithyllod anfudol, pysgod bras, llyswennod ac ati yw'r rhywogaeth darged.<br><br>Cimwch yr afon<br>• dal unrhyw gimwch afon anfrodorol yn anghyfreithlon lle nad yw cimwch afon brodorol yn bresennol.<br><br>Cyflwyno pysgod yn anghyfreithlon<br>• cyflwyno rhywogaeth frodorol heb drwydded.<br>• cadw rhywogaeth heb drwydded pan fydd angen cael un.<br><br>Dwyn pysgod<br>• casglu pysgod heb ganiatâd mewn dŵr sy'n eiddo preifat neu o afon lle mae hawliau pysgota ar waith. |

### A1.13 Effaith ar adnoddau dŵr

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • colli rhan fawr neu sylweddol o lif neu lefel afon, nant neu gamlas, neu bob rhan ohoni, lle mae'n hysbys nad yw'n ddigwyddiad naturiol.<br>• colli rhan fawr neu sylweddol o'r holl adnodd dŵr daear, neu bob rhan ohono. |
| Isel – effaith fach | • mân golled o lif neu lefel afon, nant neu gamlas am gyfnod byr.<br>• mân amhariad neu golli adnodd dŵr daear mân lle mae'n hysbys nad yw'n ddigwyddiad naturiol. |

### A1.14 Effaith ar ddŵr, tynnu dŵr yfed

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | Effaith fawr ar bwynt tynnu dŵr yfadwy:<br>• achosion pan fydd yn angenrheidiol cau man tynnu dŵr wyneb neu ddŵr daear yfadwy sy'n strategol bwysig, er mwyn atal llygredd neu lygru pellach o'r ffynhonnell honno, o ganlyniad i ddirywiad gwirioneddol mewn ansawdd y dŵr.<br>• o ran ffynonellau dŵr daear strategol, mae'n debygol y bydd yr effaith yn llai uniongyrchol, ond efallai y bydd modd o gyfiawnhau cau'r man tynnu dŵr os yw'r digwyddiad yn digwydd o fewn Parth Gwarchod Tarddiad Dŵr.<br><br>Effaith sylweddol ar bwynt tynnu dŵr yfadwy:<br>• cau man tynnu dŵr wyneb neu ddŵr daear yfadwy sy'n strategol bwysig er mwyn atal y ffynhonell honno rhag cael ei llygru.<br>• cymhwyswch 'Uchel' wrth gau rhagofalus man tynnu dŵr daear strategol lle nad oedd y digwyddiad wedi digwydd o fewn ei barth amddiffyn ffynhonell cadwraeth natur.<br>• achosion pan fydd yn angenrheidiol cau man tynnu dŵr wyneb neu ddŵr daear yfadwy sydd heb drwydded (sy'n gwasanaethu un neu ddwy aelwyd, er enghraifft) o ganlyniad i ddirywiad gwirioneddol mewn ansawdd y dŵr.<br>• camau gweithredu neu driniaeth sylweddol sy'n ofynnol gan y gweithredwr er mwyn mynd i'r afael â dirywiad mewn ansawdd y dŵr, megis cymysgu gyda dŵr nad yw'n llygredig. |
| Isel – effaith fach | Effaith fach ar bwynt tynnu dŵr yfadwy:<br>• cau rhagofalus man tynnu dŵr daear neu ddŵr wyneb yfadwy heb drwydded.<br>• mân weithred neu driniaeth sy'n ofynnol gan y gweithredwr i fynd i'r afael â dirywiad yn ansawdd y dŵr. |

### A1.15 Effaith ar fordwyo

Mae hwn yn berthnasol i unrhyw ddigwyddiad sy'n digwydd o fewn Gwarchodfa Dyfrdwy lle ni yw'r awdurdod cymwys ar gyfer mordwyo (aber Dyfrdwy yn unig), ac mae'n bosibl y

bydd yn effeithio neu ei fod yn effeithio ar bobl, eiddo, neu'r amgylchedd. Mae'n rhaid hysbysu'r harbwrfeistr ynglŷn â'r holl ddigwyddiadau.

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • suddo, gwrthdrawiad, neu dirio llongau; adeiledd sy'n cwympo neu rwystr o fewn awdurdodaeth y Warchodaeth sy'n arwain at rwystr neu berygl i fordwyo.<br>• digwyddiad morol o fewn aber Dyfrdwy sy'n arwain at farwolaeth, gollwng deunydd llygredig, galw ar wasanaethau brys, neu ddifrod sylweddol i gwch neu adeiladwaith.<br>• cais i ddefnyddio ardal y Warchodaeth fel man cysgod ar gyfer llongau mewn perygl. Suddo, gwrthdrawiad neu dirio llongau; adeiledd sy'n cwympo neu rwystr o fewn awdurdodaeth y Warchodaeth sy'n arwain at rwystro’r sianel fordwyo.<br>• difrod i, neu golli, cymorth mordwyo sy'n eiddo i Warchodfa Dyfrdwy.<br>• malurion sy'n arnofio ac yn peri risg sylweddol i gychod sy'n mordwyo o fewn ardal Gwarchodfa Dyfrdwy. |
| Isel – effaith fach | • suddo, gwrthdrawiad neu dirio llong, adeiladwaith sy'n cwympo neu rwystr o fewn awdurdodaeth y Warchodaeth nad yw'n peri risg i fordwyo.<br>• methiant cymorth mordwyo Gwarchodfa Dyfrdwy.<br>• methiant cymorth mordwyo trydydd parti.<br>• malurion sy'n nofio ac yn peri risg sylweddol i gychod sy'n mordwyo o fewn ardal Gwarchodfa Dyfrdwy. |

### A1.16 Effaith ar lifogydd posibl

Rydym yn rhagweld ac yn monitro'n barhaus ar gyfer llifogydd posibl o afonydd a ffynonellau arfordirol sy'n peri risg llifogydd ac yn gweithio gyda'r Ganolfan Rhagweld Llifogydd er mwyn cynhyrchu Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd dyddiol sy'n crynhoi'r perygl o lifogydd ar raddfa awdurdod unedol bum diwrnod ymlaen llaw ar gyfer pob ffynhonnell llifogydd.  Mae gwybodaeth ragolwg leol, wedi'i chyfuno â'r Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd, yn rhoi syniad o'r llifogydd posibl. Yn ddibynnol ar y risg o lifogydd, mae hyn yn sbarduno ymateb gennym ni, y llywodraeth a phartneriaid proffesiynol cyn i'r llifogydd ddigwydd.

Rydym yn darparu gwasanaeth rhybuddion llifogydd ar gyfer partneriaid proffesiynol a'r cyhoedd er mwyn eu rhybuddio am lifogydd o afon neu ffynonellau arfordirol. Ategir hyn gan bwerau o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1992 (Adran 166) a Chyfarwyddyd Gweinidogol 1996. Mae Hysbysiadau Llifogydd, Rhybuddion Llifogydd a Rhybuddion Llifogydd Difrifol yn cael eu cyhoeddi yn seiliedig ar amodau a ragwelwyd neu a welwyd ond, mewn achosion Rhybuddion Llifogydd Difrifol, gwneir hyn ar y cyd â phartneriaid proffesiynol a gwybodaeth sy’n benodol i ardal ynglŷn â'r risg i fywyd.

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, | • rhybuddion Melyn neu Goch gan y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd ar gyfer unrhyw awdurdod unedol yng Nghymru (unrhyw ffynhonell llifogydd). |

| | |
|---|---|
| barhaus, helaeth neu sylweddol | • telegynhadledd y Gwasanaeth Cynghori ar Lifogydd Cenedlaethol gyda'r Ganolfan Rhagweld Llifogydd a Llywodraeth Cymru i drafod risg llifogydd posibl a'r ymateb tebygol.<br>• un neu fwy o delegynhadleddau lleol y Gwasanaeth Cynghori ar Lifogydd gyda phartneriaid proffesiynol y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i drafod risg llifogydd posibl a'r ymateb tebygol.<br>• cyflwyno mwy nag un o Rybuddion Llifogydd neu Rybuddion Llifogydd Difrifol.<br>• diddordeb syweddol gan y cyfryngau o ran risg llifogydd posibl a datganiadau/cyfweliadau cysylltiedig â'r cyfryngau.<br>• presenoldeb gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru mewn mannau ymateb cychwynnol, amddiffynfeydd neu asedau eraill oherwydd risg llifogydd posibl a lle nad oes unrhyw ddifrod i asedau – gweler A1.2 Effaith ar, neu o ganlyniad i, asedau Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Isel – effaith fach | • Risg llifogydd Melyn ar y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd ar gyfer unrhyw awdurdod unedol yng Nghymru yn y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd (unrhyw ffynhonell o lifogydd).<br>• cyhoeddi un neu fwy o Rybuddion Llifogydd. |

## A1.17 Effaith ar lifogydd gwirioneddol

Yn ystod adegau pan fydd llifogydd, byddwn yn:

- rhoi amddiffynfeydd, gorsafoedd pwmpio ac asedau eraill ar waith i sicrhau eu bod yn gweithredu fel y dylent er mwyn lleihau'r risg i gymunedau o lifogydd o brif afonydd a dŵr arfordirol ac aberol;
- cofnodi ac adrodd am lifogydd eiddo y rhoddwyd gwybod i ni amdanynt;
- cyfathrebu â phartneriaid proffesiynol fel rhan o'r ymateb aml-asiantaeth i lifogydd;
- monitro lefelau dŵr lle bo angen;
- ymdrin â rhwystrau a allai waethygu llifogydd o brif gyrsiau dŵr, pan fo hynny'n ddiogel.

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • llifogydd mawr o brif afon, neu ddŵr arfordirol neu aberol.<br>• llifogydd mewn un neu fwy eiddo (tai a feddiannir, carafanau, meysydd gwersylla, adeiladau preswyl, masnachol neu ddiwydiannol) sy'n uwch na lefel y llawr yn yr un ardal benodol. Ystyrir bod eiddo yn dioddef llifogydd pan fydd y llifddwr wedi cyrraedd trwy'r pwynt mynediad isaf (megis bricsen aer), neu pan wneir difrod mewnol i'r eiddo o ganlyniad i lifogydd allanol (megis dŵr wedi mynd i mewn i frics uwchben y cwrs atal lleithder). Ystyrir bod yr eiddo yn dioddef llifogydd os bydd llifogydd yn cyrraedd y garej a'i bod yn rhan o'r eiddo.<br>• llifogydd neu amharu ar adeiladau allweddol a nodir mewn cynlluniau llifogydd, e.e. adeiladau cyhoeddus ac argyfwng (megis ysbytai, ysgolion, gorsafoedd heddlu a thân) ac adeiladau strategol pwysig eraill nad yw'n gallu gweithredu ar ôl hynny.<br>• difrod i neu ddymchwel posibl adeiladau/strwythurau.<br>• difrod i seilwaith. |

| | |
|---|---|
| | • perygl posibl i fywyd oherwydd dŵr sy'n llifo'n gyflym neu'n ddwfn, neu donnau sy'n gorlifo neu'n boddi.<br>• efallai y bydd angen gwacáu eiddo.<br>• adegau pan fydd ymateb brys gan yr heddlu, y gwasanaeth tân neu ambiwlans, a'r awdurdodau lleol yn cael ei rwystro'n sylweddol o ganlyniad i lifogydd sy'n effeithio ar fynediad neu offer.<br>• llifogydd a chau traffyrdd a/neu gefnffyrdd mawr a/neu ffyrdd A a B prysur sy'n ynysu ffyrdd a/neu'n rhwystro cerbydau rhag teithio rhwng cymunedau, sy'n golygu bod amserau teithio'n cael eu hestyn gan fwy na 30 munud a bod yr ymateb brys yn cael ei effeithio.<br>• llifogydd a chau'r rhwydwaith rheilffyrdd.<br>• nid yw cyflenwadau cyfleustodau ar gael neu maent yn cael eu heffeithio'n ysbeidiol (megis dŵr, trydan, nwy a gwasanaethau ffôn) mewn nifer sylweddol (cymuned) o eiddo preswyl neu un eiddo masnachol mawr, e.e. ffatri ddiwydiannol fawr, gweithfeydd cemegol.<br>• unrhyw hysbysiad ynglŷn â llifogydd a ragwelwyd neu wirioneddol gan gronfa ddŵr, gan gynnwys difrod i isadeiledd argae.<br>• presenoldeb gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru mewn mannau ymateb cychwynnol, amddiffynfeydd neu asedau eraill oherwydd hysbysiad ynghylch llifogydd gwirioneddol a lle nad oes unrhyw ddifrod gweledol i asedau – gweler A1.2 ar gyfer difrod i asedau. |
| Isel – effaith fach | • llifogydd sy'n is na lefel llawr cartrefi a busnesau (mae llifogydd sy'n is na lefel y llawr yn golygu llifogydd yn yr isloriau a'r selerau hynny nas ystyrir eu bod yn fannau byw, a llifogydd o dan loriau crog).<br>• llifogydd mewn preswylfeydd nad oes neb yn byw ynddynt, garejys a siedau gardd ar wahân, meysydd carafanau neu feysydd wersylla.<br>• eiddo unigol mewn lleoliadau arfordirol a effeithir gan lwch dŵr neu donnau sy'n gorlifo.<br>• isffyrdd lleol sy'n dioddef llifogydd, gan gynnwys ffyrdd A (nad ydynt yn gefnffyrdd), B, C a di-ddosbarth.<br>• llifogydd ar dir ffermio (âr a phori). |

### A 1.18 Effaith ar ymbelydredd

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • llygru ymbelydrol sylweddol a helaeth sydd angen gwrthfesurau mawr gan gynnwys monitro a samplu amgylcheddol.<br>• gwasgaru lleoledig o ddeunyddiau ymbelydrol a llygru sydd angen gwrthfesurau cyfyngedig.<br>• pan fydd y cyhoedd yn derbyn dos o ymbelydredd.<br>• achos brys ar safle niwclear sifil o fewn y DU, a'i effaith bosibl neu wirioneddol ar Gymru.<br>• argyfwng sy'n ymwneud â safle diogelu niwclear, llong danfor niwclear mewn porthladd, neu arfau niwclear sy'n cael eu cludo.<br>• defnyddio deunyddiau ymbelydrol yn elyniaethus o ffynhonell a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>• colli rheolaeth a thorri awdurdodiad yn sylweddol.<br>• tân sy'n cynnwys deunyddiau ymbelydrol sy’n weithredol iawn. |

| | |
|---|---|
| | • colli ffynhonell radiograffeg sy’n weithredol iawn. |
| Isel – effaith fach | • dim ymyrraeth neu'r angen i ymyrryd ond ychydig.<br>• colli ffynhonell cyfradd dos isel sydd wedi'i selio.<br>• toriad bach o awdurdodiad.<br>• deunydd ymbelydrol a ganfyddir ar safle heb ei drwyddedu. |

### A1.19 Effaith ar werth economaidd neu amwynder

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • gweithgaredd hamddenol neu ddigwyddiad cyhoeddus pwysig sy’n cael ei ganslo neu ei effeithio’n sylweddol, gan rwystro'r amrediad arferol o weithgareddau rhag cael eu cynnal.<br>• llygru difrifol neu ddifrod i eiddo, sy'n golygu bod angen cynnal gwaith adfer, dadlygru neu ddymchwel eiddo, gan weithgaredd a reoleiddir neu a weithredir gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu ddigwyddiad llifogydd. Mae hyn yn cynnwys difrod a wneir i waith paent car a ffenestri oherwydd alldaflu deunyddiau ac sy’n arwain at hawliadau iawndaliad ar gyfer trwsio (dim glanhau) gan y parti cyfrifol.<br>• difrod mawr neu sylweddol i weithgarwch amaethyddol megis llygru cnydau neu bridd yn helaeth mewn modd sydd yn eu gwneud yn anaddas i'w defnyddio, a/neu'n achosi marwolaeth/lladd da byw, a / neu'n llygru cnydau sydd angen triniaeth ychwanegol er mwyn eu hadfer i gyflwr y gellir eu defnyddio, neu achosi trallod i dda byw a'r angen am driniaeth filfeddygol oherwydd dŵr llygredig neu lygredd i aer gan weithgaredd Cyfoeth Naturiol Cymru neu ffynhonell a reoleiddir.<br>• amharu llawer neu'n sylweddol ar fuddion masnachol megis cau safle diwydiannol neu ymyriad sylweddol ar gynhyrchiant (difrod i weithgaredd masnachol) o ganlyniad i lygredd aer neu ddŵr.<br>• aflonyddwch mawr neu sylweddol i seilwaith trafnidiaeth, e.e. cau priffordd neu reilffordd oherwydd digwyddiad llygru, neu dân gwastraff mawr. |
| Isel – effaith fach | • effaith fach dros dro ar y cyhoedd sy'n byw'n agos at y safle. Gellir ei ystyried i fod yn fân niwsans, gyda mân effeithiau ar yr ystod arferol o weithgareddau. Effaith fân ar eiddo.<br>• mae hyn yn cynnwys alldaflu llwch neu ronynnau anadweithiol ar waith paent ceir neu adeiladau, neu ysbwriel, ond nad yw'n achosi unrhyw ddifrod ac y gellir ei waredu'n rhwydd.<br>• difrod mân i amaethyddiaeth neu fasnach, megis alldaflu llwch neu ronynnau anadweithiol, ond nad yw'n cael effaith niweidiol ar gnydau, da byw na gweithgaredd masnachol. Gellir cael gwared arno'n rhwydd gan law neu ddŵr. |

### A1.20 Yr angen am gydlynu aml-asiantaeth

Unrhyw ddigwyddiad sy'n gofyn am ymateb aml-asiantaeth gennym ni. Gallai hyn gynnwys cynlluniau ymateb aml-asiantaeth ac actifadu grŵp neu grwpiau cydlynu aml-asiantaeth.

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – | Aflonyddwch mawr: |

| | |
|---|---|
| effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | • tarfu ar fusnes arferol drwy ddarparu adnoddau cyswllt i grŵp aml-asiantaeth (mae enghreifftiau yn cynnwys Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Llywodraeth Cymru), Grŵp Rheoli Strategol neu Dactegol, Awdurdod Porthladd, y Cynllun Wrth Gefn Cenedlaethol, Llifogydd, Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr, Grŵp yr Amgylchedd).<br>• digwyddiad aml-asiantaeth ar ein tir megis tân neu dân gwyllt sydd angen ymateb cydlynol. |
| Isel – effaith fach | • ddim yn berthnasol. |

### A1.21 Diddordeb gan y cyfryngau/risg i enw da Cyfoeth Naturiol Cymru

Unrhyw ddigwyddiad sydd â'r potensial i ennyn diddordeb sylweddol gan y cyfryngau neu sydd â'r potensial i gael effaith negyddol sylweddol ar enw da Cyfoeth Naturiol Cymru.

| Categori | Arweiniad |
|---|---|
| Uchel – effaith fawr, ddifrifol, barhaus, helaeth neu sylweddol | Mae enghreifftiau'n cynnwys:<br>• tarfu ar fusnes arferol pan fydd y cyfryngau a'r llywodraeth yn gwneud cais i gael gwybodaeth am safle cynhennus sydd angen adnoddau penodol.<br>• lefel uchel o ddiddordeb gwleidyddol sy'n achosi pryder i Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU, gweinidogion neu aelodau etholedig.<br>• planhigion sy'n dioddef o afiechyd mawr.<br>• digwyddiad troseddol neu ddiddordeb cyhoeddus ar ein tir.<br>• achosion gorfodi effaith uchel / gweithgarwch anghyfreithlon o bwys sy'n digwydd (gweithgareddau a reoleiddir gennym fel y diffinnir o dan ein polisi erlyn a gorfodi).<br>• digwyddiadau sy'n ymwneud â Cyfoeth Naturiol Cymru neu ein his-gontractwyr. |
| Isel – effaith fach | ddim yn berthnasol. |